Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Emyr.roberts@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Emyr.roberts@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 4444

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd, Pwyllgor Amgylchedd a
Chynaliadwyedd,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1NA

14 Mai 2015

Annwyl Alun,

**Bil yr Amgylchedd a Rheoli Adnoddau Naturiol**

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Bil yr Amgylchedd. Mae hyn yn garreg filltir bwysig i ni yn CNC. Mae'r Bil newydd yn rhoi fframwaith deddfwriaethol i ni ddarparu Rheoli Adnoddau Naturiol (RhAN) ac yn rhoi rolau newydd penodol i ni i gynhyrchu Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol bob pum mlynedd, a chynhyrchu Datganiadau Ardal i amlinellu materion a'r cyfleoedd ar gyfer defnydd a gwella adnoddau naturiol ar lefel leol.

Rydym wedi bod yn datblygu ein dealltwriaeth o'r hyn y gallai RhAN ei olygu yn ymarferol, gyda'n tri threial yn nalgylchoedd y Rhondda, Dyfi a Tawe. Mae'r rhain yn rhoi'r cyfle i ni brofi sut y gall RhAN a'r darpariaethau yn y Bil Amgylchedd weithio mewn ffordd ymarferol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chymunedau lleol i edrych yn fanwl ar y materion, y cyfleoedd a'r manteision a allai fodoli o adnoddau naturiol - a sut y gellir eu gwella er budd pobl a'r amgylchedd.

Byddwn yn croesawu'r cyfle i rannu'r hyn rydym wedi dysgu drwy wahodd y Pwyllgor i ymweld â'r ardaloedd, wrth i chi baratoi ar gyfer y gwaith craffu ar y Bil. Ymwelodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol y treial Tawe yn ddiweddar ac rwy'n sicr y bydd gweld y gwaith hwn yn helpu'r Pwyllgor i ddeall y gwahaniaeth ymarferol y gall RhAN wneud er lles yr amgylchedd, pobl ac economi Cymru.

Cysylltwch â mi os hoffech drafod yn fwy manwl. Yn y cyfamser, mae Rhys Griffith yn hapus i weithio gyda'ch tîm clercio i fynd ati i drefnu'r ymweliad.

Yr eiddoch yn gywir,

**Emyr Roberts**

**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**